# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

***Uned Morwrol a Pharciau gwledig / Maritime and Country Parks Unit***

## *Rhybudd Morwriaeth Lleol*
## *Local Navigation Warning*

**Rhif / Number 01/10**

**Lleoliad:** Harbwr Pwllheli – Basn yr Hafan a Sianel Fordwyo

**Manylion:** Ar 15fed Chwefror 2010, fe fydd contractwyr yn gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd ac yn cychwyn carthu yn y sianel fordwyo ac ym masn yr Hafan.

Fe fydd y gwaith yn cael ei gwblhau drwy ddefnyddio peirannau carthu math Torrwr Sugnedd. Fe fydd dau beiriant Torrwr Sugnedd yn gweithredu yn yr harbwr.

Rhagweli'r bydd y gwaith yn parhau hyd at y 26ain Fawrth 2010, ond mae yn anorfod rhybuddio gallai'r gwaith barhau am gyfnod byr heibio'r dyddiad hwn pe bydd yna unrhyw anawster yn cael eu wynebu yn ystod cyfnod y gwaith carthu.

Mae yn bur debygol na fydd yn bosibl gadael y basn, neu mae yn debygol bydd yna gyfyngiadau yn yr Hafan tra bod y basn yn cael ei garthu. Fe fydd yna hefyd gyfyngiadau yn y sianel fordwyo tra bod y carthwr yn gweithredu yn y sianel.

Fe fydd pibell carthu yn ymestyn o'r carthwr ar draws ddwr yr harbwr at gyfeiriad y safle gwaredu carthu.

Cyfarwyddir morwyr i beidio a cheisio mordwyo o'r Hafan a cheisio croesi'r bibell carthu ar unrhyw adeg. Pe byddai morwyr yn dymuno mordwyo o'r Hafan at gyfeiriad y mor, yna rhaid cysylltu gyda'r Rheolwr yr Hafan neu'r Harbwr Feistr flaen llaw.

Mae yn anorfod bod morwyr yn cydymffurfio gyda'r Cyfarwyddiadau Hwylio ac yn mordwyo gyda phwyll pan byddent yn y sianel fordwyo. Mae yn hanfodol bod pob cwch yn cydymffurfio a chyfyngiad cyflymder uchaf, ac yn morio gyda phob parch a phwyll tra yng nghyffiniau'r carthwr.


Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

| | | |
|---|---|---|
| *Ffon* | ***01758 704081 / 01758 704066*** | *Telephone* |
| *Symudol* | ***07879 433145 / 07831 212264*** | *Mobile* |


Dyddiad: 15 Chwefror 2010